# Canlyniadau Ymgynghoriad Ysgolion 21 Ganrif Canlyniad

# Llanfairfechan

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools



## A ydych yn credu y gellid gwneud eich adeilad ysgol yn well?

97% YDW

## Pa ysgol ydych chi'n gysylltiedig â hi?

| | |
|---|---|
| Ysgol Babanod Llanfairfechan | 45 |
| Ysgol Pant y Rhedyn | 39 |
| Ysgol Capelulo | 1 |
| Ysgol Pencae | 0 |
| Dim | 1 |
| Ysgol Arall | 2 |

## Pa wasanaethau 'ychwanegol' sy'n bwysig i chi mewn ysgol?

| | |
|---|---|
| Clwb Brecwast | 52 |
| Mannau Parcio / Gollwng | 48 |
| Cyfleusterau Chwaraeon / Hamdden | 46 |
| Clybiau Ar Ôl Ysgol | 44 |
| Darpariaeth Dysgu Yn Yr Awyr Agored | 41 |
| Cyn Ysgol / Cylch | 36 |
| Darpariaeth ADY | 34 |
| Defnydd cymunedol | 27 |
| Cysylltiadau cludiant cyhoeddus | 18 |
| Arall | 1 |

## Pa mor bell o safle presennol yr ysgol fyddech chi'n barodi deithio i unrhyw ysgol newydd?

| | |
|---|---|
| 0 – 0.5 filltir | 20 |
| 0.5 – 1 filltir | 30 |
| 1 – 2 filltir | 10 |
| 2 - 3 filltir | 4 |
| 3+ filltir | 3 |

## Beth hoffech chi ei weld?

| | |
|---|---|
| Uno'r ddwy ysgol mewn adeilad newydd pwrpasol. | 45 |
| Adnewyddu Cyffredinol / Trwsio a Chynnal a Chadw (i ardaloedd yn yr ysgolion presennol) | 23 |
| Uno'r ddwy ysgol yn adeiladau'r ysgol gyfredol. | 11 |
| Disodli unrhyw ystafelloedd dosbarth dros dro gydag adeiladau parhaol | 7 |
| Arall | 1 |

## Cod post yr ymatebwyr

| | |
|---|---|
| LL33 | 31 |
| LL54/55 | 1 |
| LL34 | 1 |
| LL57 | 1 |

## Pwy gymerodd ran?

| | |
|---|---|
| Disgybl | 1 |
| Rhieni/gwarcheidwaid | 46 |
| Staff | 8 |
| Llywodraethwr | 6 |
| Cyhoedd | 8 |
| Cynghorydd | 2 |
| Arall | 1 |

Ydych chi'n credu a oes angen gwella adeilad eich ysgol bresennol?
**Rhai ymatebion:**

Ar ôl ymweld ag ysgolion eraill lle mae hyn wedi digwydd, mae'r manteision yn amlwg i'w gweld. Mae'r adeiladau presennol yn hen ac angen rhai newydd.

Mae'n bwysig bod gan blant adeiladau sydd yn ateb y gofyn i gefnogi eu haddysgu. Bydd cael yr holl blant ysgol cynradd mewn un ysgol yn helpu eu haddysgu gan na fydd yn aflonyddwch/ setlo i mewn, a llawer haws i'r rhieni hefyd.

Mae'r Cyngor eisoes yn berchen ar safle'r Heath, yn safle delfrydol gan fod digon o le parcio a gwagle i adeiladu, hefyd gellir cael mynediad at gaeau'r ysgol bresennol o fan hyn.

Mae adeilad yr ysgol, er ei fod yn hen, yn ysgol draddodiadol braf gyda chyfleoedd gwych ar gyfer dysgu yn yr awyr agored. Mae angen gwario arian ar wella'r cyfleusterau yn yr ysgol bresennol ac ystyried cyfleoedd ar gyfer datblygu'r safle bresennol/ eglwys sydd drws nesaf.

Defnyddio'r ysgolion gwag er budd y gymuned.

Dylid rhoi'r ysgolion presennol yn ôl i'r gymuned gael eu defnyddio.

Rwy'n credu dylai safle Heath gael ei ystyried fel lle posibl i adeiladu'r ysgol newydd.

Mae'n braf cael dau adeilad hanesyddol a neis, ond maent yn edrych yn flêr a ddim yn addas i'r diben gyda'r meintiau dosbarth yn cynyddu. Byddai'n braf cael ysgol newydd bwrpasol gyda chyfleusterau ar gael ar y safle ar gyfer clybiau ar ôl ysgol ayyb heb orfod symud y plant drwy'r pentref i ysgol arall.

Ymddengys bod y ddwy ysgol wedi'u hadeiladu amser maith yn ôl, ac rwy'n tybio y byddai adnewyddu'r ddwy i safon dda sydd yn bodloni'r amcanion a nodwyd yn gostus iawn ac yn achosi aflonyddwch. Nid wyf yn credu bod cwmpas i uno'r ddwy ysgol ar unrhyw un o'r safleoedd, felly mae'n debyg mai ysgol newydd pwrpasol fyddai'r canlyniad orau. Mae pryderon yn bodoli o ran beth fydd yn digwydd i'r adeiladau gwag, ond mae hynny yn drafodaeth diweddarach ar gyfer y prosiect.

Cyfleusterau gwell, ystafelloedd ddosbarth mawr gyda digon o le, a man awyr agored newydd

Hoffi mannau awyr agored a dan do newydd a modern i ddysgu, gwell gyfleusterau i blant, staff a rhieni, mwy o wersi allgyrsiol megis cerddoriaeth a drama

Adeiladau ysgol bresennol yn hen iawn a ddim yn ateb y galw mwyach. Byddai'n anodd iawn ei wneud i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a darparu mynediad awyr agored o bob ystafell ddosbarth. Adeilad pwrpasol newydd fyddai orau ac yng nghalon y gymuned.

**Sylwadau cyffredinol**

Mae'r uchod yn cael eu darparu ar hyn o bryd a dylai'n sicr fod ar safle newydd. Byddai man awyr agored gwell gyda mynediad hawdd o bob ystafell ddosbarth yn wych.

Dylai nifer y disgyblion yr ysgol newydd gynyddu gan fod rhai plant ar hyn o bryd yn teithio i ysgolion ym Mangor ayyb. Ond weithiau pan fydd ysgol newydd yn cael ei hadeiladu maent yn penderfynu symud ysgol.

Rydym angen ysgol fodern y 21ain ganrif.

Nid wyf yn credu y dylai'r datblygiad tai arfaethedig effeithio ar ddatblygiad yr ysgol newydd fel y mae ar hyn o bryd. Mae'n hen bryd i CBSC wneud rhywbeth, i stopio llusgo'u traed gyda'r gobaith y bydd y datblygwyr tai yn ariannu adeilad yr ysgol!

Mae maes parcio yn flaenoriaeth wrth ystyried safle newydd a'r posibilrwydd o uno dwy ysgol, a chynnydd posibl mewn disgyblion pan fydd tai newydd yn cael eu hadeiladu. Mae angen mannau diogel i gasglu a gollwng plant os na ellir cerdded i'r ysgol.

Dim clwb ar ôl ysgol yn unig ond ystod ehangach o weithgareddau e.e. Chwaraeon yn dda ar hyn o bryd (MW Sports) ond ddim mor dda mewn gweithgareddau cerddoriaeth/ offerynnau a chelf/ pethau creadigol neu "dechnegol". Mae Learning to Bee yn dda. Y prif broblem yw'r diffyg clwb ar ôl Ysgol yn y dosbarth babanod – nid yw'n ddelfrydol gorfod cerdded i ysgol arall a nid ydym wedi gwneud hyn oherwydd y rheswm.

Rwy'n cefnogi'r ysgol – Safle newydd ac ysgol newydd

Pryder ynghylch gadael bwlch yng nghanol y pentref os ydynt yn symud i safle newydd. Lleihau nifer yr ymwelwyr i siopau lleol. Pryder ynghylch defnyddio safleoedd maes glas i adeiladu ysgol newydd pan mae gennym adeilad wag a safle yn y pentref.

Mae plant yn Llanfairfechan yn haeddu'r gorau. Nid yw'r ysgolion yn cynnig addysg y 21fed ganrif ar hyn o bryd.

Cyfarpar chwarae awyr agored.

Cyfleusterau hamdden a champfa y gall pawb yn y gymuned gael mynediad atynt.

Un o'r nifer fanteision o ysgol fach yw'r awyrgylch a bod eich plentyn yn unigolyn sydd yn hysbys. Mae'n anodd disgrifio'r awyrgylch, neu hyd yn oed creu y fformiwla i ailgreu. Byddai hyn yn bwysig i'n teulu symud ymlaen.

Byddai'n siomedig gweld calon y pentref yn symud i safle sydd y tu allan i'r prif bentref ar y cyrion. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn defnyddio'r lleoedd gwag yn dda, megis neuadd y dref a'r eglwys. Byddai'n dda gwybod cyn gynted â phosib beth yw goblygiadau'r ysgol eglwysig gyfredol – efallai ei fod yn wahanol.

Cyfleusterau llawer gwell ar gyfer diogelwch y plant a rhieni. Cyflogi Staff lleol i'r ysgol sy'n byw o fewn yr ardal leol.

## Diolch i bawb a gymerodd ran ac am ychwanegu i'r broses.